Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Enw'r lleoliad: Wales Laser Clinic
## Dyddiad yr arolygiad: 25 Ebrill 2022
## Dyddiad cyhoeddi: 26 Gorffennaf 2022



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



978-1-80364-588-9

Ar y cyfan, canfuom fod Wales Laser Clinic wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cadarnhaol i'w gleifion.

Roedd yr amgylchedd i'w weld yn lân ac yn daclus, a gwelsom fod prosesau ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth lle gallai'r gwasanaeth wella ymhellach i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau a rheoliadau.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Wales Laser Clinic ar 25 Ebrill 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol, ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd profiad y claf

## Crynodeb cyffredinol

- Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym eu bod yn gweithio ar eu pen eu hunain yn y clinig a bod y prif ddrws dan glo pan oedd y clinig ar agor i gleifion

- Gwelsom fod y cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarperir gan y clinig ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion

- Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth, cyn ac ar ôl triniaeth, i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth

- Roedd trefniadau addas ar waith i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau. Fodd bynnag, rhaid i'r clinig roi polisïau ar waith ar gyfer gweithio unigol a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd yr holl ymatebion i holiaduron cleifion, ar draws pob maes, yn dangos bod y cleifion wedi cael profiad cadarnhaol o'r lleoliad hwn

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Llunio polisïau ar gyfer gweithio unigol a chydraddoldeb ac amrywiaeth
- Rhoi canlyniadau'r holl adborth y gofynnwyd amdano i gleifion.

**Yng ngeiriau'r cleifion:**

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 22 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd yr holl ymatebion ar draws pob maes yn nodi profiad cadarnhaol i gleifion ymhlith y rhai a gwblhaodd holiaduron am y lleoliad hwn. Gofynnwyd i gleifion yn yr holiadur sgorio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Dywedodd pob un o'r 22 a ymatebodd i'r holiadur fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

> "Pobl mor anhygoel a byddwn yn eu hargymell yn fawr."
> "Gwasanaeth anhygoel, cyfeillgar a gwnaethon nhw i mi deimlo'n gyfforddus."
> "Hapus iawn â'r gwasanaeth gwych."
> "Ardderchog, y lleoliad bob amser yn lân, gwasanaeth llawn gwybodaeth, defnyddiol iawn, dim byd yn ormod o drafferth."

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Crynodeb cyffredinol

- Cawsom ein sicrhau bod y cleifion yn cael gofal unigol â ffocws a oedd wedi'i ddogfennu mewn cofnodion cleifion cywir a chynhwysfawr

- Gwelsom fod y clinig yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl

- Roedd y peiriannau laser yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr, ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio'r peiriannau

- Roedd yr ystafell driniaeth wedi'i chyfarparu'n dda ac roedd yn amlwg yn lân ac yn daclus iawn

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd cofnodion y cleifion yn darparu gwybodaeth dda am y claf a'i driniaeth.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod y gwiriadau gwifrau bob pum mlynedd perthnasol yn cael eu cwblhau mewn modd amserol
- Ailysgrifennu'r polisi diogelu i adlewyrchu camau gweithredu a gofynion lleol.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## Crynodeb cyffredinol

- Roedd y rheolwr cofrestredig wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ac roedd yn meddu ar yr wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion a dangosodd ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth da

- Byddai'r weithdrefn gwyno sydd ar waith yn y clinig yn galluogi cwynion cleifion i gael eu trin yn effeithiol ac yn amserol

- Roedd gan y clinig ystod o bolisïau a gweithdrefnau ac roedd angen diweddaru rhai ohonynt a chynnwys rheolaeth briodol ar fersiynau.

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Mae'r clinig yn bwriadu cyflogi nyrs glinigol ychwanegol yn y flwyddyn nesaf a hefyd cyflogi un aelod o staff anghlinigol i helpu gyda gwaith marchnata a rheoli prosiectau
- Mae'r clinig wedi caffael offer laser ychwanegol i allu darparu triniaethau ychwanegol ac maent yn y broses o gofrestru a hyfforddi ar gyfer y peiriannau laser hyn.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Cadw pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Mae'r pryderon hyn wedi'u hamlinellu yn yr atodiadau ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y darparwr gofal iechyd annibynnol i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a fynegwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, mae AGIC yn gofyn i'r darparwr gofal iechyd annibynnol gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i'r darparwr gofal iechyd annibynnol ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

